

# Adolygiad o gynllunio dilyniant mewn addysg bellach yng Nghymru

Mehefin 2016

2016

People and Work  
Pobl a Gwaith



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## **Cynulleidfa**

Sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol; ysgolion â chweched dosbarth; Estyn.

## **Trosolwg**

Adolygiad o ran pa mor dda mae colegau yng Nghymru yn cynllunio ac yn cyflawni eu cwricwlwm i sicrhau cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr ar bob lefel, ac i sicrhau 'llinell welediad' glir ar gyfer llwybrau gyrfa.

## **Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

## **Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Marian Jebb

Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Llywodraeth Cymru

Tŷ'r Afon

Heol Bedwas

Bedwas

CF83 8WT

Ffôn: 01443 663673

e-bost: [post16quality@cymru.gsi.gov.uk](mailto:post16quality@cymru.gsi.gov.uk)

## **Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn [learning.gov.wales/?skip=1&lang=cy](http://learning.gov.wales/?skip=1&lang=cy)

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ran Llywodraeth Cymru gan:

Rhodri Bowen a Dr. Duncan Holtom

Uned Pobl a Gwaith

Ffôn: 029 2048 8536

e-bost: [admin@peopleandworkunit.org.uk](mailto:admin@peopleandworkunit.org.uk)

Gwefan: [www.peopleandworkunit.org.uk](http://www.peopleandworkunit.org.uk)

Rhif Cofrestru'r Elusen: 515211

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 1809654

## **Cydnabyddiaethau**

Hoffai'r awduron ddiolch i'r 13 o golegau a gynorthwyodd yr astudiaeth drwy hwyluso ymweliadau a'r 53 o staff a'r 80 o ddysgwyr a gyfrannodd at y cyfweiliadau. Hoffai'r awduron hefyd ddiolch i aelodau o grŵp llywio prosiect Llywodraeth Cymru am eu cyngor a'u hadborth drwy gydol yr astudiaeth. Yn olaf, hoffai'r awduron ddiolch i Val Williams am ei chyfraniad at y gwaith maes.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	3
2. Dull a methodoleg.....	5
3. Cynllunio'r cwricwlwm a "chynnig" y cwricwlwm.....	6
4. Dewis y dysgwr.....	14
5. Gallu a photensial dysgwyr .....	23
6. Data dilyniant.....	28
7. Casgliadau.....	30
Llyfryddiaeth .....	34
Atodiad .....	37

## Tablau

Tabl 1: Ffynonellau data Gwybodaeth am y Farchnad Lafur .....	8
Tabl 2: Rôl gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o ran llywio dewisiadau dysgwyr.....	14
Tabl 3: Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wrth ddewis cyrsiau, ystyried newidiadau, neu ystyried ymddieithrio .....	16
Tabl 4: y rhesymau dros ddewisiadau dysgwyr ac asesu dylanwad colegau dros ddewisiadau.....	21
Tabl 5: dulliau o nodi ac asesu cryfderau ac anghenion dysgwyr; cyfateb dysgwyr i lwybrau dilyniant priodol a chynllunio a chymorth unigol .....	24
Tabl 6: data dilyniant (yn ddiennw) a gasglwyd o bum coleg.....	29
Tabl 7: dangos y newid canrannol o ran gweithgarwch dysgu a gredydwyd ar Lefel Mynediad, Lefel 1, 2, 3, 4 a 5 mewn SAB rhwng 2010/11 a 2014/15 (data dros dro). .....	37

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae marchnad lafur Cymru yn newid ac yn gynyddol mae'n galw am lefelau sgil llawer uwch nag yn y gorffennol. Mae gan golegau rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y sgiliau hyn (helpu dysgwyr i wireddu eu dyheadau cyflogaeth) (LIC, 2014; Estyn, 2016). Mewn ymateb, **nod** yr adolygiad hwn yw:

cynnal adolygiad o ran pa mor dda mae colegau yng Nghymru yn cynllunio ac yn cyflawni eu cwricwlwm i sicrhau cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr ar bob lefel, ac i sicrhau "llinell welediad" glir ar gyfer llwybrau gyrfa<sup>1</sup>.

1.2. **Amcanion** yr astudiaeth yw:

- penderfynu a yw'r dulliau o ran cynllunio'r cwricwlwm a gymerir gan golegau yng Nghymru yn arwain dysgwyr at sicrhau llwybrau dilyniant cydlynol i Lefel 3 ac uwch;
- ymgysylltu â cholegau i ddeall rhwystrau i reoli dilyniant yn effeithiol;
- asesu sut y mae dulliau cyllido, cynllunio a sicrhau ansawdd yn darparu cymhellion cadarnhaol neu negyddol;
- ystyried sut y mae colegau'n sicrhau, drwy ofynion mynediad ac asesiad cychwynnol, fod dysgwyr wedi'u cofrestru ar raglenni ar lefelau priodol ac yn cael eu cynorthwyo i gyflawni cymwysterau ar y lefel uchaf bosibl;
- ymgysylltu â dysgwyr i ddeall eu safbwynt ar argaeledd ac eglurder llwybrau dilyniant, eu dyheadau o ran dilyniant, ac i ba raddau y mae cyngor ac arweiniad yn cael eu hintegreiddio drwy gydol y rhaglenni dysgu;
- gwerthuso data ar weithgarwch dysgu yn ôl lefel, cyfraddau dilyniant a boddhad dysgwyr a nodi patrymau cyffredinol o ddilyniant, materion a bylchau;
- ystyried a yw dysgu o'r lefel mynediad i Lefel 2 yn rhoi sgiliau a gwybodaeth ddigonol i ddysgwyr ddatblygu i lefelau uwch, ac a yw dysgwyr yn cael cymorth digonol i wneud y pontio hwnnw;
- nodi astudiaethau achos "arfer gorau" ac argymhellion ar gyfer gwella.


## Yr adroddiad hwn

---

<sup>1</sup> Yn hynny o beth, canolbwyntiodd yr adolygiad ar y defnydd o wybodaeth am y farchnad lafur yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm, ond nid oedd wedi ceisio gwerthuso canlyniadau hyn (h.y. a oedd cyfatebiaeth dda rhwng cynnig cwricwlwm y colegau a galwadau'r farchnad lafur).

1.3. Fel y dangosir gan ffigur 1, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar dri ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar ddilyniant: cynllunio'r cwricwlwm, dewis dysgwr a gallu dysgwr (trafodir y rhain yn adrannau tri, pedwar a phump o'r adroddiad). Lle y mae'r tri wedi'u halinio, mae dysgwyr yn symud ymlaen.

**Ffigur 1: tri phenderfynydd dilyniant dysgwyr**



1.4. Lle y bo'n briodol, mae'r adroddiad yn defnyddio confensiwn Estyn (Estyn, 2014, t16), a amlinellir isod, ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfran y colegau y mae pwynt penodol yn cyfeirio ati.

Ymadrodd	Yr hyn y mae'r ymadrodd yn ei gynrychioli
Y rhan fwyaf	90 y cant neu fwy
Llawer	70 y cant neu fwy
Mwyafrif	Dros 60 y cant
Tua hanner	Yn agos at 50 y cant
Lleiafrif	O dan 40 y cant
Ychydig	O dan 20 y cant
Ychydig iawn	Llai na 10 y cant

## **2. Dull a methodoleg**

### **Cyflwyniad**

2.1. Gwnaeth yr astudiaeth integreiddio tair elfen allweddol: adolygiad o'r ddesg o lenyddiaeth a data; cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol; ac arolwg o bolisi ac arfer mewn colegau yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth bwysig, ond nid yw'n ddarlun cynhwysfawr o'r *holl* arfer ar draws y sector addysg bellach yng Nghymru.

### **Cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol**

2.2. Cynhaliwyd saith cyfweiliad â rhanddeiliaid allweddol. Deilliodd y rhanddeiliaid o Lywodraeth Cymru, Colegau Cymru a Gyrfa Cymru, a chanolbwyntiodd y cyfweiliadau ar drafod materion ar lefel Cymru gyfan, fel defnydd colegau o wybodaeth am y farchnad lafur i helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â chyfleoedd cyflogaeth pan maent yn dewis cyrsiau coleg.

### **Adolygiad o'r ddesg o lenyddiaeth a data**

2.3. Cynhaliwyd adolygiad bwriadus o ymchwil berthnasol, gwerthusiadau ac adroddiadau arolygu Estyn. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau blynyddol Estyn ar golegau unigol ac adolygiadau thematig. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar nodi tystiolaeth o, er enghraifft, ddefnydd colegau o wybodaeth am y farchnad lafur ac effeithiolrwydd eu cynllunio cwricwlwm a'u canfyddiadau.

2.4. Cafodd data meintiol ar ddarpariaeth ddysgu, deilliannau a phrofiadau dysgwyr eu dadansoddi (a chaiff hyn ei drafod yn adran chwech). Canolbwyntiodd yr adolygiad ar ddeall patrymau dilyniant, ond roedd wedi'i gyfyngu gan anawsterau olrhain dilyniant dysgwyr unigol drwy SAB. Felly ategwyd data cenedlaethol gan ddadansoddiad o ddata a ddarperir gan golegau unigol.

### **Arolwg o arfer mewn colegau yng Nghymru**

2.5. Ymwelwyd â phob un o'r 13 o golegau. Roedd yr ymweliadau'n cynnwys cyfweiliadau â staff sy'n ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm (n=46); grwpiau ffocws gyda dysgwyr (n=80 o ddysgwyr, mewn 11 o golegau), gan ganolbwyntio ar un maes pwnc ym mhob coleg; a chasglu data ychwanegol (e.e. ar ddilyniant dysgwyr). Canolbwyntiodd yr ymweliadau ar ddeall prosesau cynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys rhwystrau a galluogwyr, gan nodi enghreifftiau o arfer da a thrafod profiadau dysgwyr.

### 3. Cynllunio'r cwricwlwm a “chynnig” y cwricwlwm

#### Cyflwyniad

- 3.1. Mae cynllunio'r cwricwlwm yn bwysig o ran sicrhau y gall dysgwyr ddatblygu mewn colegau a thu hwnt (er enghraifft, i mewn i AU), tuag at yr yrfa y maent yn bwriadu ei dilyn. Mae cynllunio'r cwricwlwm yn ymgorffori cynllunio, cyflawni ac adolygu cynnig cwricwlwm coleg. Mae ansawdd cynllunio a chyflawni'r cwricwlwm hefyd yn bwysig, am ei fod yn effeithio ar ddewisiadau dysgwyr (e.e. a ddylid parhau neu ymddieithrio - mae adran pedwar yn canolbwyntio ar hyn) a gallu dysgwr (e.e. datblygu sgiliau a gwybodaeth - mae adran pump yn canolbwyntio ar hyn).
- 3.2. “Dyhead tymor hir” Llywodraeth Cymru yw: “sicrhau y dylai cyfran uwch o unigolion, erbyn y byddant yn 19 oed, fod wedi cyflawni neu fod wrthi'n cyflawni deiliant dysgu ar Lefel 3” (LIC, 2014, t.3). Felly mae cynllunio'r cwricwlwm, ar y cyfan, yn canolbwyntio ar ddilyniant fertigol; sicrhau bod “llwybrau” o gyrsiau lefel is i gyrsiau lefel uwch (yn hytrach na llwybrau pengaead neu “bontydd wedi torri”). Serch hynny, nododd y colegau, ar gyfer rhai dysgwyr, fod dilyniant i Lefel 2, ond ddim pellach, yn briodol. Er enghraifft, nodwyd:
- Efallai na fydd angen i rai dysgwyr, mewn meysydd fel gofal plant, symud y tu hwnt i Lefel 2 er mwyn gwireddu eu dyheadau gyrf<sup>2</sup>;
  - gall dilyniant llorweddol ar yr un lefel alluogi dysgwyr mewn pynciau fel gwaith saer i ymestyn eu sgiliau (drwy weithio ar yr un lefel), mewn maes fel gwneud dodrefn;
  - efallai y bydd rhai dysgwyr yn cyrraedd nenfwd “naturiol” ar Lefel 2, ac y byddant yn cael trafferth gwneud cynnydd y tu hwnt i hynny, oherwydd eu ‘gallu’.

#### Elfennau allweddol


- 3.3. Fel y dengys ffigur 2, mae cynllunio'r cwricwlwm yn cynnwys cydbwysu dau ffactor allweddol; galw'r farchnad lafur, a galw a gallu'r dysgwr (byddwn yn trafod hyn ymhellach yn adrannau pedwar a phump).

---

<sup>2</sup> Gall y rhai sy'n astudio gofal plant ddod o hyd i gyflogaeth ym maes gofal plant ar lefel 2, er y byddai angen iddynt gael eu goruchwyllo o hyd.



**Ffigur 2**



- 3.4. Os bydd gormod o bwyslais yn cael ei roi ar alwadau'r farchnad lafur, efallai na fydd cyrsiau'n cael eu llenwi a/neu bydd dysgwyr yn cael trafferth cwblhau'r cyrsiau hynny. I'r gwrthwyneb, os bydd gormod o bwyslais yn cael ei roi ar y galw gan ddysgwyr, efallai y bydd dysgwyr yn cael trafferth dod o hyd i gyflogaeth.
- 3.5. Mae'r astudiaeth wedi dangos bod cynllunio'r cwricwlwm wedi'i gyfyngu neu ei alluogi gan ffactorau fel:
- cystadleuaeth gan ddarparwyr dysgu eraill sy'n dylanwadu ar y galw gan ddysgwyr am leoedd mewn coleg neu gampws penodol (o ystyried maint colegau, yn aml mae ganddynt fwy nag un safle sy'n cwmpasu gwahanol boblogaethau) ac i ba raddau y darperir ar gyfer galw'r farchnad lafur eisoes gan leoliad/darparwr arall mewn ardal benodol;
  - gallu'r coleg i gyflawni a newid i y cwricwlwm, sy'n dibynnu ar ffactorau fel ei adeiladau, offer, maint a sgiliau'r gweithlu, cymorth gan ddiwydiant, diffyg awydd sefydliadol, a pharodrwydd y coleg i gymryd risgiau; mae hyn yn golygu bod newid y cwricwlwm yn tueddu i fod yn raddol, nid ar raddfa eang;
  - yr adnoddau (e.e. cyllid) sydd ar gael i ddatblygu a chyflawni'r cwricwlwm oherwydd bod gan golegau swm penodol o gyllid craidd yn seiliedig ar niferoedd y dysgwyr, felly, ac eithrio masnachfreinio dysgwyr a defnyddio ffrydiau cyllid eraill, fel cyllid gan ddiwydiannau, maent yn gweithredu o fewn swm penodol o gyllid sydd ar gael.
- 3.6. Mae'r astudiaeth yn dangos sut y mae angen i gynnig y cwricwlwm, sef canlyniad cydbwysu'r ystyriaethau gwahanol hyn, fod yn glir ac yn gydlynol; er enghraifft, mae angen iddo gynnig llwybrau dilyniant clir i gyfleoedd cyflogaeth. Mae angen i'r llwybrau ar bapur (sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno fel siartiau llif) gael eu gwerthuso'n ymarferol hefyd gan golegau (er enghraifft, a yw dysgwyr yn barod i drosglwyddo o un campws i un arall er mwyn parhau â'u llwybr dilyniant? A yw dysgwyr yn datblygu i gyflogaeth neu astudiaeth bellach?). Gall monitro a gwerthuso

dilyniant dysgwyr helpu i nodi cryfderau a gwendidau systemig nid dim ond wrth gynllunio a chyflawni'r cwricwlwm, ond hefyd mewn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, y mae adran pedwar yn canolbwyntio arnynt, ac asesu a chymorth i ddysgwyr, y mae adran pump yn canolbwyntio arnynt.

## Dulliau ac arfer effeithiol

3.7. Mae asesiadau colegau o alwadau cyflogwyr a dysgwyr yn canolbwyntio ar:

- werthuso tueddiadau yn y gorffennol fel deilliannau ôl-Addysg Bellach (e.e. cyfraddau dilyniant i gyflogaeth, hyfforddiant neu AU) a'r galw/niferoedd o ran dysgwyr;
- rhagweld y galw yn y dyfodol o ran cyflogwyr a dysgwyr (e.e. o ystyried newidiadau demograffig a newidiadau mewn darpariaeth ôl-16, fel newid i addysg drydyddol).

3.8. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r ffynonellau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin o wybodaeth am y farchnad lafur ac yn nodi ffynonellau eraill, a ddefnyddir yn llai cyffredin, y dylai'r holl golegau ystyried eu defnyddio.

**Tabl 1: Ffynonellau data Gwybodaeth am y Farchnad Lafur**

Ffynonellau cyffredin a ddefnyddir i gael Gwybodaeth am y Farchnad Lafur	Opsiynau cydategol eraill y dylai colegau ystyried eu defnyddio i wella Gwybodaeth am y Farchnad Lafur
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru<sup>3</sup></li> <li>• cynlluniau gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol</li> <li>• amrywiaeth o ffynonellau ar gael drwy'r Arsyllfa Dysgu a Sgiliau<sup>4</sup></li> <li>• data drwy gysylltiadau â</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dull sy'n integreiddio ac yn trin data Gwybodaeth am y Farchnad Lafur mewn ffordd effeithiol i lywio cynllunio'r cwricwlwm (gweler astudiaeth achos Coleg A)</li> <li>• colegau'n casglu eu data rhagweld eu hunain (e.e. drwy arolwg cyflogwr lleol)</li> <li>• colegau'n casglu eu data eu hunain ar gyfer tueddiadau'r gorffennol e.e. data cyrchfan (dros y ffôn) ar ddysgwyr chwe mis ar ôl iddynt adael y coleg. Mae Estyn wedi argymhell ateb cenedlaethol<sup>5</sup>. Fodd bynnag, mae hyn yn</li> </ul>

<sup>3</sup> Er enghraifft, y pwyslais ar bynciau STEM i gefnogi diwydiannau yn y dyfodol. Ar gael yn:

<http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/140530-priorities-for-further-education-sector-2015-2016-cy.pdf>

<sup>4</sup> Papurau crynodeb o Wybodaeth allweddol am y Farchnad Lafur, ar gael yn: <http://www.arsyllfadydysgu.com>

<sup>5</sup> Dylai Llywodraeth Cymru "weithio gydag ysgolion, colegau, Gyrfya Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu system genedlaethol ar gyfer casglu data ar gyrchfannau pobl ifanc 18 oed" (Estyn 2015, t.5)

diwydiannau lleol/rhanbarthol (e.e. data a gasglwyd gan baneli diwydiant a chynghorau, i berthnasoedd mwy anffurfiol â diwydiannau lleol)	<p>debygol o gymryd amser ac yn y cyfamser mae angen atebion tymor byr.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio ffynonellau o wefannau eraill fel NOMIS<sup>6</sup>, StatsCymru<sup>7</sup>, Uned Ddata Cymru<sup>8</sup> a Chomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau<sup>9</sup></li> <li>• data ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), gan Gyrfya Cymru</li> </ul>
---	---

3.9. Mae Estyn (2015) yn nodi bod arfer gorau o ran y defnydd o ddata Gwybodaeth am y Farchnad Lafur ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn cynnwys y defnydd o raglenni ymchwil masnachol, ar-lein i fonitro tueddiadau cyflogaeth ac yn yr achosion gorau mae tiwtoriaid a dysgwyr mewn colegau'n defnyddio'r rhaglen hon i ddod o hyd i'r ardaloedd sy'n cynnig y cyfleoedd swyddi gorau iddynt ac i nodi cyfleoedd cyflogaeth eraill. (ibid, t. 19). Mae'r astudiaeth achos Coleg A isod yn adrodd ar enghraifft o'r fath.

#### Coleg A: Arfer da o ran y defnydd o ddata Gwybodaeth am y Farchnad Lafur ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm

Mae gan y coleg ddull o gynllunio'r cwricwlwm sy'n defnyddio rhaglen ymchwil fasnachol ar-lein sy'n galluogi dewis cyfleoedd cyflogaeth presennol ac wedi'u rhagweld mewn gwahanol leoliadau daearyddol; er enghraifft, gall amlinellu'r galw presennol mewn rhai sectorau (e.e. iechyd a gofal cymdeithasol) ac mewn swyddi penodol (e.e. gwaith cymdeithasol) a sut y mae'r galw am y rôl honno yn debygol o newid dros y pum i ddeng mlynedd nesaf. Gellir cynhyrchu'r data hwn mewn amrywiaeth o ardaloedd daearyddol fel awdurdodau lleol neu ranbarthau ehangach; ac i ardaloedd cyfatebol yn Lloegr (mae gan rai colegau niferoedd mawr o ddysgwyr sy'n dod o hyd i waith yn Lloegr). Yna mae'r wybodaeth hon yn cael ei hintegreiddio'n ganolog â data arall a gasglwyd gan y coleg, fel data cwblhau cwrs, a ddefnyddir i lywio cynllunio'r cwricwlwm; er enghraifft, ceir potensial i'r coleg gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd bod y data wedi dangos cynnydd yn nifer y swyddi yn y rhanbarth lleol ac ehangach yn y sector hwn. O ganlyniad mae'r coleg yn bwriadu codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc a rhieni ynghylch cyfleoedd swyddi yn y sector hwn, gyda'r nod o gyflenwi rhagor o gyrsiau yn y sector hwn ar lefelau priodol.

<sup>6</sup> Ar gael yn: <https://www.nomisweb.co.uk/>

<sup>7</sup> Ar gael yn: <https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue>

<sup>8</sup> Ar gael yn: <http://www.unedddatacymru.gov.uk/data>

<sup>9</sup> Arolwg sgiliau cyflogwr. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-uk-report>

- 3.10. Mae rhagolygon galw gan y dysgwr yn seiliedig ar batrymau o flynyddoedd blaenorol yn bennaf (rhagweld tueddiadau). Ar y cyfan mae'r rhain wedi bod yn ganllaw dibynadwy o ran tueddiadau'r dyfodol; er enghraifft, mae pynciau fel seicoleg yn parhau'n boblogaidd wrth i'r galw am wyddorau dyfu'n raddol. Mae ambell goleg yn nodi eu bod yn darparu ar gyfer meysydd lle mae'r galw gan y dysgwr wedi bod yn sefydlog iawn, o ystyried amlygrwydd diwydiannau lleol nad ydynt wedi newid yn sylweddol. O ganlyniad, er bod cynnig y cwricwlwm wedi'i fireinio, i adlewyrchu newidiadau fel rôl fwy Technoleg Gwybodaeth mewn amaethyddiaeth, ni fu newid ar raddfa eang. Serch hynny, ceir newidiadau annisgwyl o ran y galw gan ddysgwyr, o ystyried yr amrywiaeth o ddylanwadau ar ddewis dysgwyr fel y cyfryngau ehangach, sydd wedi arwain at gynnydd yn y galw yn dilyn, er enghraifft, rhaglenni teledu sydd wedi poblogeiddio rhai gyrfaoedd (a drafodir yn adran pedwar).
- 3.11. Yn y tymor byr, yn y rhan fwyaf o achosion gall colegau fynd i'r afael â galw is neu uwch na'r disgwyl drwy farchnata, a thrwy fanteisio ar hyblygrwydd a "llacrwydd" o ran cynnig y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n anodd ymateb yn gyflym i newidiadau mawr, yn enwedig newidiadau annisgwyl yn y galw. Er enghraifft, nododd tua hanner y colegau anawsterau o ran ymateb yn gyflym i newidiadau mawr yn y galw yn enwedig mewn meysydd pwnc y mae angen cyfleusterau arbenigol a/neu arbenigedd arnynt yn rhannol yn sgil cyfyngiadau cyllido a chyllidebau cyfyngedig ar gyfer hyfforddi staff. At hynny, mae gweithredu newidiadau sylweddol mewn sefydliad fel coleg mawr yn cymryd amser<sup>10</sup>, a nododd un coleg fod y broses yn debyg i newid cyfeiriad "tancer mawr". Gall newid fod yn beryglus a gall gynnwys penderfyniadau anodd, fel diswyddo staff, ac felly mae'n galw am arweinyddiaeth gref.
- 3.12. Mae gan bob coleg rywfaint o hyblygrwydd yn eu cynnig cwricwlwm, i alluogi dysgwyr i newid cyrsiau (e.e. os byddant yn dewis y cwrs "anghywir", yn newid eu meddwl am eu dyheadau gyrfa, neu'n cael trafferth gyda galwadau cwrs). Yn y rhan fwyaf o golegau, mae angen gwneud hyn yn gynnar, yn ddelfrydol o fewn yr wyth wythnos gyntaf, ac erbyn mis Ionawr fan bellaf. Fodd bynnag, mae lleiafrif o golegau'n datblygu opsiynau hyblyg sy'n galluogi dysgwyr i newid ar ôl mis Ionawr. Mae hyblygrwydd yn aml yn cael ei ddarparu drwy gyrsiau modiwlaid, lle gellir dechrau modiwlau ar adegau gwahanol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl gyda chysiau llinol y mae'n rhaid eu cwblhau yn eu trefn (oherwydd bod pob adran yn darparu'r sylfaen ar gyfer adrannau dilynol). Mewn ymateb, fel y mae astudiaeth achos Coleg B isod yn dangos, mae colegau wedi

---

<sup>10</sup> Mae hyn yn cael ei ategu gan astudiaethau eraill (PPMA, 2010; Starling, 2010; Cunningham a Kempling, 2009).

datblygu cyrsiau interim hefyd, sy'n canolbwyntio ar alluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau (a pharhau i ymgysylltu) cyn newid cyrsiau ym mis Medi. Mae un coleg hefyd yn treialu rhaglenni dysgu carlam gyda nifer bach o gyrsiau galwedigaethol ym mis Medi 2016. Mae hyn yn ceisio galluogi dysgwyr sy'n gallu i wneud cynnydd cyflymach, a 'neidio' i fyny dwy lefel mewn blwyddyn (yn hytrach na symud i fyny lefel bob blwyddyn). I helpu i ddarparu ar gyfer hyn, mae'r flwyddyn academaidd wedi'i hymestyn rhwng pedair a chwe wythnos.

### Coleg B: datblygu cwricwlwm hyblyg

Yn y coleg, yn aml roedd dysgwyr a oedd wedi penderfynu newid cyrsiau ar ôl eu tymor cyntaf yn wynebu opsiynau cyfyngedig; er enghraifft, byddai'n rhaid i lawer aros am y flwyddyn academaidd nesaf (mis Medi) er mwyn dechrau cwrs newydd, ac felly roeddent mewn perygl o roi'r gorau iddi. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, sefydlodd y coleg "gwrs ar gyfer astudiaeth bellach" wedi'i anelu at ddysgwyr a oedd am newid cwrs yn hwyr yn y flwyddyn academaidd (gallant ymuno â'r cwrs hwn hyd at ddiwedd cyfnod y Pasg). Mae'r cwrs yn fodiwlaid (i wella hyblygrwydd ynghylch dyddiadau dechrau) ac mae'n canolbwyntio ar sgiliau cyflogadwyedd (cyfathrebu, rhifedd a TGCh) a phynciau poblogaidd fel cymdeithaseg a seicoleg. Mae'n ceisio helpu i lenwi bylchau sgiliau a chynorthwyo dilyniant. Mae cyngor gyrfaoedd hefyd yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod hwn i helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y dewis cywir ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

### Trafodaeth

3.13. Mae gwaith mewn partneriaeth â chyflogwyr yn hanfodol o ran sicrhau bod cynnig y cwricwlwm yn diwallu eu hanghenion. Mae Estyn (2014b) yn nodi bod partneriaethau gyda chyflogwyr yn effeithiol ar y cyfan, er bod y cysylltiadau rhwng rhai colegau a chyflogwyr yn llawer cryfach nag eraill. Cafodd yr astudiaeth hon fod gan golegau ddealltwriaeth dda o'r hyn mae cyflogwyr ei eisiau ar y cyfan. Er enghraifft, tynnodd y colegau sylw at ddiwydiannau newydd a oedd yn dod i'w hardal a'r camau roeddent yn eu cymryd i fanteisio ar y datblygiadau hyn. Er gwaethaf hyn, pwysleisiodd adborth gan ddysgwyr o leiafrif o golegau eu bod yn dymuno cael rhagor o brofiad gwaith ymarferol<sup>11</sup> yn eu cwrs, sy'n debygol o ddigwydd drwy ymgysylltu pellach â chyflogwyr.

<sup>11</sup> Mae hyn yn cael ei ategu gan sylwadau dysgwyr o arolwg Llais y Dysgwr i Gymru 2015 (Llywodraeth Cymru 2015), a cheir crynodeb ohono yn y [papur briffio](#) hwn

- 3.14. Yn ogystal, pwysleisiodd dysgwyr o leiafrif o golegau y ceir, mewn rhai pynciau, ddiffyg cyfleoedd prentisiaethau a/neu ymgysylltu â diwydiant. Gallai hyn rwystro'r llwybr dilyniant a ddewiswyd gan ddysgwyr. Pwysleisiodd yr astudiaeth mewn rhai meysydd, fel adeiladu, fod rôl cwmnïau annibynnol fel Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Cymru yn ddefnyddiol i golegau o ran helpu i ddarparu prentisiaethau ac ymgysylltu; fodd bynnag, roedd partneriaethau o'r fath yn fwy prin mewn meysydd mwy arbenigol fel peirianeg forol.
- 3.15. Amlygodd mwyafrif y colegau sut roedd y fframwaith cynllunio a chyllido ôl-16 newydd<sup>12</sup> wedi helpu colegau i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y galw gan y cyflogwr a'r dysgwr, yn bennaf drwy ganolbwyntio ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur (gan gynnwys adborth ar nifer y dysgwyr yn y coleg ar raglenni gan Gynghorau Sgiliau Sector) a'r pwyslais ar raglenni yn hytrach na chymwysterau.
- 3.16. Nodir bod uno rhwng colegau wedi tarfu ar gynllunio'r cwricwlwm yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae'r uno hwn, ynghyd â gwell partneriaethau rhwng colegau ac AU, yn golygu bod colegau bellach yn cynnig dewis ehangach o ran cyrsiau a llwybrau dilyniant lefel uwch (i Lefel 3 ac uwch) (Estyn, 2014)<sup>13</sup>.
- 3.17. Fodd bynnag, nodir bod toriadau cyllid wedi cael effaith negyddol ar y broses o gynllunio'r cwricwlwm (e.e. faint o adnoddau y gall colegau fuddsoddi ynddynt) a hefyd yr opsiynau sy'n agored i'r coleg (e.e. pa lwybrau dilyniant y gallent eu datblygu/eu cynnig).
- 3.18. Mae'r broses o gynllunio'r cwricwlwm yn ei gwneud yn ofynnol cael data cadarn, ond gall fod yn heriol rhagweld y galw o ran y farchnad lafur yn y dyfodol a'r galw o ran dysgwyr, a chasglu data dibynadwy ar gyrchfannau dysgwyr, a'r rhesymau pam mae dysgwyr yn rhoi'r gorau iddi. Er enghraifft, dim ond lleiafrif o golegau sydd â data cyrchfan gweddol ddibynadwy ar gyfer pobl ifanc 18 oed sy'n dod o hyd i gyflogaeth neu sy'n mynd yn NEET (mae hyn yn cael ei gasglu gan staff y coleg drwy gysylltu'n uniongyrchol â dysgwyr y gorffennol tua chwe mis ar ôl iddynt adael y coleg). Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae llawer o golegau'n dibynnu ar fwriadau a nodwyd gan ddysgwyr cyn iddynt adael a gall hyn fod yn annibynadwy, ac o ganlyniad argymhellodd Estyn (2015) y dylid datblygu system genedlaethol ar gyfer casglu data ar gyrchfannau

---

<sup>12</sup> Ar gael yn: <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/131031-guide-planning-and-funding-framework-cy.pdf>

<sup>13</sup> Mae mwyafrif y colegau wedi gwella'r lefelau'r cyrsiau y maent yn eu cynnig, yn sgil uno colegau neu drefniadau trydyddol newydd yn bennaf (Estyn, 2014b t.120)

pobl ifanc 18 oed. Yn ogystal, mae llawer o golegau'n cael data gan UCAS ar ddilyniant i addysg uwch (ar gyfer dysgwyr hŷn).

- 3.19. Mae'r gwendid mewn data ac o ganlyniad yr angen am grebwyll yn golygu nad yw cynllunio'r cwricwlwm yn wyddor fanwl. Serch hynny, yn gyffredinol, po fwyaf effeithiol yw cynllunio'r cwricwlwm, lleiaf yw'r camgyfatebiaeth rhwng y galwadau o ran y farchnad llafur a'r dysgwyr a chynnig y cwricwlwm.
- 3.20. Mae newidiadau yn y farchnad lafur yn golygu er bod llwybrau dilyniant wedi'u sefydlu'n dda a chllir ar gyfer rhai gyrfaoedd (yn seiliedig ar gyrsiau galwedigaethol fel arfer), ar gyfer llawer o yrfaeodd eraill ceir sawl llwybr posibl y gall dysgwyr eu dilyn. Fel y byddwn yn ei drafod yn yr adran nesaf, mae gan golegau rôl allweddol felly o ran "bwrw goleuni" ar lwybrau posibl i alluogi dysgwyr i wireddu eu dyheadau, a symud ymlaen i gyflogaeth a/neu astudiaeth bellach.
- 3.21. Ceir hefyd dystiolaeth o bolareiddio cynyddol mewn marchnadoedd llafur, gyda niferoedd cynyddol o swyddi'n ei gwneud yn ofynnol cael sgiliau lefel uwch, ochr yn ochr â nifer cynyddol o swyddi lled-fedrus (Owens, 2015; Felstead et al., 2002). Mae hyn yn awgrymu er bod angen i rai dysgwyr gynllunio i symud ymlaen i AU (a bod angen i lwybrau cwricwlwm o fewn AB alluogi hyn), efallai na fydd angen i eraill fynd y tu hwnt i Lefel 2. Mae gan hyn oblygiadau pwysig o ran cynllunio'r cwricwlwm a gwybodaeth, cyngor a chanllawiau (y bydd yr adran nesaf yn canolbwyntio arnynt).

## 4. Dewis y dysgwr

4.1. Mae'r dewisiadau a wneir gan ddysgwyr, am eu dyheadau gyrfu (yr hyn y maent am ei wneud) a'r llwybr i'w dyhead (sut y maent am gyrraedd yno) yn cael effaith fawr ar eu dilyniant, felly mae'r dewisiadau mae dysgwyr yn eu gwneud am y rhain cyn mynd i'r coleg ac yn ystod eu hamser yn y coleg yn bwysig.

4.2. Mae gan golegau rôl allweddol o ran darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (canolbwynt yr adran hon) ac mae tabl 2 isod yn crynhoi sut y dylai gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol helpu i sicrhau y gall dysgwyr wneud dewisiadau hyddysg. Mae data Llais y Dysgwr i Gymru ar gyfer 2015 yn nodi bod tua 70 y cant o ddysgwyr yn fodlon ar y wybodaeth a'r cyngor a gawsant (LIC, 2015, t.20).


**Tabl 2: Rôl gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o ran llywio dewisiadau dysgwyr**

'Cyfraniadau'	Proses
<ul style="list-style-type: none"><li>- Dyheadau gyrfu (yr hyn mae dysgwyr am ei wneud)</li><li>- Cynllunio'r cwricwlwm (e.e. datblygu llwybrau dilyniant)</li><li>- Asesu gallu a photensial dysgwr</li><li>- Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (e.e. cyfleoedd a rhagolygon cyflogaeth)</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>- Her (trafod dewisiadau eraill, Gwybodaeth am y Farchnad Lafur, dyheadau a gallu dysgwr)</li><li>- Cynllunio unigol (sut y gall y dysgwr wireddu ei ddyheadau, gan gynnwys dewis llwybrau dilyniant)</li></ul>

### Dulliau ac arfer effeithiol

4.3. Dylai gwybodaeth, cyngor ac arweiniad fod yn barhaus, yn gysylltiedig ag adolygiadau rheolaidd ac yn unol â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (FfYDI) (LIC, 2013), wedi'u targedu pan fo dysgwyr mewn perygl o ymddieithrio neu wedi ymddieithrio. Fel y mae ffigur 3 yn dangos, ceir tri chyfnod hollbwysig pan fo gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn arbennig o bwysig.

**Ffigur 3**





4.4. Mae tabl 3 yn crynhoi'r dulliau a ddefnyddir amlaf at wybodaeth, cyngor ac arweiniad ar adegau allweddol ac yn nodi dulliau a ddefnyddir yn llai aml, ond sy'n gydategol. Mae'r astudiaeth yn dangos bod gan diwtoriaid rôl allweddol, ond ni ddylent fod yr unig ffynhonnell o wybodaeth, cyngor ac arweiniad rheolaidd.

**Tabl 3: Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wrth ddewis cyrsiau, ystyried newidiadau, neu ystyried ymddieithrio**

Cam: cyfnodau pan fo...	Dulliau cyffredin a ddefnyddir	Dulliau cydategol eraill y dylai colegau ystyried eu defnyddio i gryfhau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
dysgwyr yn dewis (e.e. cwrs, a ddylid symud ymlaen i'r lefel nesaf)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• diwrnodau agored coleg, cyrsiau rhagflas, ymweliadau ysgol a chyfweliadau.</li> <li>• briffio ysgolion, cynghorwyr Gyrfa Cymru a'r awdurdod lleol ar lwybrau dysgu 14-19.<sup>14</sup></li> <li>• marchnata (e.e. gwefannau, taflenni)</li> <li>• cyngor parhaus gan diwtoriaid.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau'r cyswllt mwyaf posibl â dysgwyr ar yr adeg hon (gweler astudiaeth achos Coleg C), gan gynnwys cyngor wyneb yn wyneb i ddysgwyr hŷn yn enwedig.</li> <li>• targedu ysgolion y mae gan y coleg berthynas "waeth" â hwy o ran rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.</li> <li>• darparu mwy o gyrsiau i ddisgyblion 14-16 oed yn y coleg, gan gynnwys prentisiaethau iau (Blwyddyn 10).<sup>15</sup></li> <li>• cyrsiau rhagflas estynedig.<sup>16</sup></li> <li>• darparu arwydd o'r cyflog tebygol sy'n gysylltiedig â dewisiadau gyrfa gwahanol.</li> </ul>
dysgwyr yn gallu newid neu pan fo angen iddynt gynnal cynnydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cyngor parhaus gan diwtoriaid</li> <li>• Gyrfa Cymru (yn bennaf i'r rhai mewn perygl o ymddieithrio) a chynghorwyr mewnol (gan gynnwys anogwyr dysgu).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• rhoi safonau craidd ar waith ar gyfer adnabod yn gynnar (fel rhan o'r FfYDI)<sup>17</sup></li> <li>• staff ymroddedig ag arbenigedd ym maes gwybodaeth am y farchnad lafur yn cynghori staff eraill a dysgwyr.</li> </ul>

<sup>14</sup> e.e. <https://www.npted.org/section/1419/Pages/default.aspx>

<sup>15</sup> e.e. targedodd un coleg ddisgyblion sy'n cael trafferth yn yr ysgol ac sydd â diddordeb mewn prentisiaeth. Byddent yn mynd i'r coleg yn lle'r ysgol ac yn parhau i ddilyn TGAU mewn Saesneg a Mathemateg a gwneud prentisiaeth ran-amser. Ar ddiwedd y ddwy flynedd, byddai prentisiaeth lawn wedi'i gwarantu iddynt.

<sup>16</sup> e.e. mae gan goleg gwrs cyn TGAU i ddysgwyr sydd heb benderfynu. Mae hyn yn cynnwys rhagflas trin gwallt ac adeiladu lefel Edexcel sy'n sylweddol hwy na'r arfer (h.y. 16 wythnos), sydd hefyd yn helpu gyda datblygu sgiliau sylfaenol.

<sup>17</sup> Fel y mae'r FfYDI yn amlygu: "canolbwyntio ar ddangosyddion presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad fel craidd"; "llunio asesiad clir wedi'i flaenoriaethu o risg o ganlyniad", "cael ei defnyddio gan bob partner sy'n ymwneud â rhoi cymorth"; a "bod yn gyson â gwasanaethau eraill" (LIC, 2013, t. 18).

- defnyddio adborth dysgwyr i lywio gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (e.e. gan gynrychiolwyr dysgwyr ac arolygon mewnol).
- sgysiau/cyflwyniadau diwydiant i ddysgwyr mewn meysydd pwnc cysylltiedig
- profiad gwaith
- mentrau “newid yn lle gadael” (i annog dysgwyr i newid cwrs yn hytrach na gadael.)
- wythnosau dilyniant (pan fo'r ffocws ar gynnwys dysgwyr wrth feddwl am eu dilyniant).
- rhaglenni dysgu wedi'u cynllunio fel y gall dysgwyr adael gyda rhyw ffurf ar gymhwyster os ydynt yn gadael yn y flwyddyn gyntaf.
- sgysiau gan bobl o ddiwydiannau lle mae galw mawr ar adegau pan fyddai'n hawdd i ddysgwyr newid cyrsiau.
- codi ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr (e.e. drwy diwtoriaid a phosteri) bod newid cwrs yn dderbyniol hyd yn oed os nad ydych mewn perygl o adael.

## Trafodaeth

- 4.5. Mae newidiadau economaidd, fel dad-ddiwydiannu a'r cynnydd o ran yr "economi wybodaeth" (a drafodir yn adran tri) wedi creu cyfleoedd newydd, ond maent hefyd wedi cael gwared ar lawer o lwybrau galwedigaethol traddodiadol ac yn golygu ei bod yn ofynnol i ddysgwyr wneud llawer mwy o ddewisiadau. Mae'r data ansoddol a gasglwyd gan yr adolygiad hwn yn nodi bod gan ddysgwyr ddyheadau uchel a'u bod yn awyddus i symud ymlaen, ond bod eu dealltwriaeth o lwybrau dilyniant yn aml yn amrywiol (a bod colegau mewn sefyllfa dda i wella'u dealltwriaeth ac y dylent fod yn gwneud mwy i fynd i'r afael â hyn). Roedd dealltwriaeth dysgwyr (fel y gellid disgwyl) yn gryfach yn gyffredinol ymhlith dysgwyr y pynciau mwy galwedigaethol, fel plymwaith, â llwybrau dilyniant clir i nifer bach o yrfaedd. I'r gwrthwyneb, roedd dysgwyr mewn meysydd fel cyfryngau a chelfyddydau creadigol, â llawer o opsiynau cyflogaeth amrywiol yn bosibl, yn aml yn llai clir. Roedd rhai dysgwyr hefyd yn canolbwyntio mwy ar ddilyniant i AU ac, o ganlyniad, yn cael eu hannog i wneud 'pynciau hwyluso'<sup>18</sup> i gael mynediad i brifysgol Grŵp Russell<sup>19</sup> er mwyn eu galluogi i gael cyflogaeth yn y dyfodol.
- 4.6. Dadleuodd rhai cyfweleion fod dewis cynyddol yn golygu bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol yn bwysicach nag erioed. Felly, roedd pryderon bod toriadau mewn gwasanaethau fel Gyrfa Cymru wedi cael effaith negyddol ar fynediad pobl ifanc i wybodaeth, cyngor ac arweiniad. Hefyd, arsylwyd y gallai fod yn anodd i ddysgwyr wneud defnydd llawn o swm a hygyrchedd cynyddol gwybodaeth am y farchnad lafur wrth wneud dewisiadau heb fynediad i weithwyr proffesiynol a allai eu cynghori.
- 4.7. Gall gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol ddylanwadu ar ddyheadau dysgwyr a llywio'u penderfyniadau am sut y mae eu gwireddu. Fodd bynnag, oni bai bod gan ddysgwyr ddyheadau clir mewn perthynas â chyflogaeth a/neu addysg bellach, mae'n anodd cynghori dysgwyr ar lwybrau dilyniant gan na wyddys y cyrchfan a fwriedir. Ymhellach, mae rhai dysgwyr yn datblygu dyheadau gyrfa clir pan maent yn y coleg. Heb ddyheadau clir, mae hefyd yn debygol y bydd gan ddysgwyr llai o ysgogiad a bod mewn mwy o berygl o ymddieithrio os ydynt yn dod ar draws heriau neu rwystrau (e.e. yn gysylltiedig â theithio neu gost AB). Felly mae gweithio gyda dysgwyr i'w helpu i ddatblygu dyheadau clir a realistig yn bwysig i golegau a dysgwyr. Dylai hyn ddarparu

---

<sup>18</sup>Ar gael yn: <http://russellgroup.ac.uk/for-students/school-and-college-in-the-uk/subject-choices-at-school-and-college/>

<sup>19</sup> Mae'r Grŵp Russell yn cynnwys 24 o brifysgolion y DU ag enw da ar gyfer safonau uchel ym maes ymchwilio ac addysgu. Fe'u gwelir yn aml yn brifysgolion mwyaf mawreddog y DU.

syflaen gadarn sy'n cynorthwyo dilyniant, ond ni ddylai atal dysgwyr rhag newid ei ddyheadau.

- 4.8. Nododd ychydig o golegau iddynt fynd ati i hysbysu dysgwyr presennol a oedd eisoes yn astudio mewn meysydd pwnc â rhagolygon cyflogaeth cyfyngedig am feysydd pwnc eraill â chyfleoedd cyflogaeth gwell neu ehangach (gan ddylanwadu ar ddyheadau dysgwyr neu eu newid o bosibl). Fodd bynnag, roedd y dacteg hon yn aneffeithiol i raddau helaeth. Fel y dangosir yn nhabl 4, gallai hyn fod oherwydd bod y prif ffactor sy'n dylanwadu ar ddewis dysgwyr yw eu diddordeb neu eu mwynhad yn y maes pwnc<sup>20</sup>. Mae llywio dewisiadau cychwynnol dysgwyr (cyn mynediad i'r coleg) felly'n bwysig a gellid ategu hyn drwy roi mwy o ffocws ar ragflas a/neu brofiad gwaith mewn meysydd pwnc lle mae galw'r wybodaeth am y farchnad lafur yn uchel (i helpu i feithrin diddordeb a mwynhad mewn pynciau newydd). Mae hyblygrwydd yng nghynnig y cwricwlwm hefyd yn bwysig i alluogi dysgwyr i weithredu ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad (fel y trafodwyd ym mharagraff 3.11 ac astudiaeth achos Coleg B).

### **Coleg C: hysbysu disgyblion am gyfleoedd gyrfa cyn mynediad**

Mae'r coleg yn achub ar bob cyfle i sicrhau bod disgyblion (oed ysgol) a dysgwyr yn cael eu hysbysu am gyfleoedd gyrfa yn y meysydd pwnc mae'r coleg yn eu cynnig; mae'r rhain yn cynnwys:

- cylchlythyr pwrpasol i ysgolion sy'n cynnwys disgyblion/dysgwyr y gorffennol (o'r ysgol a'r coleg) yn sôn am eu profiad gyrfa
- esbonnir cynnig cwricwlwm y coleg a chyfleoedd addysg uwch a gyrfa cysylltiedig i ddisgyblion mewn amrywiaeth o weithgareddau, e.e. mae'r disgyblion yn ymweld â'r coleg ym Mlwyddyn 10; ym Mlwyddyn 11 mae rhieni a disgyblion yn mynd i noson agored; ac mae'r coleg yn mynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau mewn ysgolion lleol, fel nosweithiau opsiynau Blwyddyn 9.
- mae llwybrau dilyniant a chyrchfan y dyfodol yn rhan glir o gynnig y coleg; er enghraifft, mae portffolios dysgu (h.y. meysydd astudio wedi'u cyfuno, fel cymdeithasol a diwylliannol) yn disgrifio'r mathau o yrfaedd y gall llwybrau penodol roi mynediad iddynt.
- mae'r coleg yn cyfeirio disgyblion sydd â diddordeb mewn meysydd pwnc a llwybrau gyrfa cysylltiedig nad yw'n eu cynnig, i golegau eraill neu chweched dosbarth ysgolion.
- mae cyfweiliadau ag ymgeiswyr yn cynnwys anogwyr dysgu sy'n darparu arweiniad ynglŷn â'u dewisiadau pwnc a'u haddasrwydd ar gyfer eu nodau gyrfa.

<sup>20</sup> Mae hyn yn cael ei ategu hefyd gan astudiaeth yn Lloegr (Simm et al., 2007).

4.9. Hyd yn oed pan fo dyheadau clir gan ddysgwyr, nid yw gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol yn gallu gwarantu dilyniant i gyflogaeth neu addysg bellach; er enghraifft:

- gall gwybodaeth am y farchnad lafur fod yn ansicr (gweler adran tri) ac er bod dilyniant gyrfa'n ysgogwr allweddol i bobl barhau ag addysg<sup>21</sup> a bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n canolbwyntio ar obeithion cyflogaeth a chyflog felly'n debygol o fod yn bwysig, nid dyma'r unig ffactor sy'n cymell dewisiadau. Er enghraifft, gallai diddordeb mewn pwnc fod yn bwysicach na gobeithion cyflogaeth (ac yn yr astudiaeth hon amlygodd dysgwyr ddiddordeb neu fwynhad yn y maes pwnc neu faes pwnc tebyg fel y prif ffactor wrth ddewis eu cwrs (gweler tabl 3).<sup>22</sup> O ganlyniad, nid yw dewisiadau dysgwyr bob amser yn economaidd "resymegol";
- gall fod yn anodd asesu gallu neu botensial dysgwr cyn iddo ddechrau ar gwrs felly mae'n hanfodol sicrhau bod asesiadau cychwynnol yn gadarn a bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn effeithiol yn yr wyth wythnos gyntaf; ac mae angen hyblygrwydd;
- mae gan ddysgwyr fynediad i sawl ffynhonnell o wybodaeth, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys yr hyn a gynnigir gan rieni (dylanwad allweddol), cyfoedion, ysgolion a Gyrfa Cymru, a all fynd yn groes i'r wybodaeth, cyngor ac arweiniad a gynnigir gan golegau.

4.10. Roedd y rhan fwyaf o golegau'n teimlo bod diffyg cyngor diduedd a/neu gwbl hyddysg a ddarperir mewn ysgolion (oherwydd y gall fod gan ysgolion â chweched dosbarth, er enghraifft, fuddiant breintiedig mewn "dal gafael" ar ddysgwyr a gall fod gan staff ysgol brofiad cyfyngedig o golegau neu brentisiaethau). Dim ond colegau mewn ychydig o awdurdodau lleol a adroddodd fod ganddynt fynediad i'r rhan fwyaf o ysgolion. Yn ychwanegol, nid oedd llawer o ddysgwyr y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon yn gweld gwerth yn y cyngor gyrfa a gawsant yn yr ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu gwendidau ehangach sydd wedi arwain Estyn i ddod i'r casgliad "yn gyffredinol, nid yw cyngor ac arweiniad i ddysgwyr trwy gydol eu haddysg yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth dda o'r farchnad lafur a chyfleoedd cyflogaeth." (Estyn, 2016, t. 91).

---

<sup>21</sup> Ar gael yn:

<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140108090250/http://www.ukces.org.uk/assets/ukces/docs/publications/evidence-report-3-employee-demand-for-skills.pdf>


<sup>22</sup> Mae hyn yn cael ei ategu hefyd gan astudiaeth yn Lloegr (Simm et al., 2007).

4.11. Mae amrywiaeth y dylanwadau y mae dysgwyr yn agored iddynt yn gallu cyfyngu ar eu dewisiadau, ac mae ymchwil yn amlygu sut y gall dewisiadau pobl ifanc fod yn “rhwymedig”, gan gyfyngu ar yr opsiynau y maent yn eu hystyried. Er enghraifft, bydd ymdeimlad pobl ifanc o’r hyn sy’n bosibl ac yn ‘naturiol’ i bobl ‘fel hwy’ yn tueddu i gyfyngu ar amrywiaeth y dewisiadau y byddant yn eu hystyried (Dolton et al., 1999; Evans a Furlong, 1997). O ganlyniad, mae newid dewisiadau dysgwyr yn gallu cymryd cryn amser. Ymhellach, er bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn gallu ceisio sicrhau bod dysgwyr yn gwneud dewisiadau mwy hyddysg, y dysgwr sy’n dewis yn y pen draw, nid y coleg. Mae dysgwyr hefyd yn gwneud dewisiadau gwahanol (e.e. wrth i’w dyheadau newid). Felly, mae angen i golegau weithio’n galed i sicrhau bod dewisiadau dysgwyr mor hyddysg ag y bo modd a’u bod, lle y bo’n briodol, yn mynd ati i lywio’r dewisiadau hynny (e.e. drwy gyffroi dysgwyr ac ennyn eu diddordeb mewn meysydd pwnc penodol).

4.12. Mae tabl 4 isod yn crynhoi’r rhesymau allweddol mae dysgwyr yn dewis eu cwrs ac yn asesu cwmpas colegau i ddylanwadu’n uniongyrchol ar y dewis hwn. Fel y dangoswyd, mae meysydd lle mae rhai colegau’n debygol o fod wedi cael mwy o ddylanwad nag eraill.

**Tabl 4: y rhesymau dros ddewisiadau dysgwyr ac asesu dylanwad colegau dros ddewisiadau**

Rhesymau dros ddewisiadau dysgwyr (yn nhrefn mynychder)	Cwmpas colegau i ddylanwadu’n uniongyrchol ar ddewisiadau
diddordeb mewn maes pwnc tebyg neu fwynhad ohono cyn ymuno â’r coleg	- canolig - e.e. drwy wneud cwrs rhagflas a chysiau coleg tra’u bod yn yr ysgol, gall dysgwyr fod yn agored i bynciau newydd
dylanwad rhieni a theulu	- canolig - e.e. gall nosweithiau agored a marchnata ennyn diddordeb rhieni a theulu, ond mae llawer o ffynonellau eraill yn dylanwadu ar rieni
cael digon o ddewisiadau pwnc ar y cyd ag agosrwydd lleoliad	- uchel - dyma ffocws cynllunio’r cwricwlwm, er bod ffactorau fel cyllid a lleoedd coleg yn cyfyngu ar hyn
cyfryngau	- cyfyngedig - mae dylanwad colegau dros sylw yn y cyfryngau’n debygol o fod yn fach, o’i gymharu

	â ffynonellau eraill
cyfleoedd cyflogaeth	 <ul style="list-style-type: none"><li>- uchel - dylai cynllunio'r cwricwlwm fod wedi'i lywio gan wybodaeth am y farchnad lafur, felly gall colegau ddefnyddio hyn i strwythuro llwybr dilyniant i gyflogaeth ac i lywio dewisiadau dysgwyr drwy, er enghraifft, ymweliadau ysgol, cyfweliadau a chyngor parhaus</li></ul>



## 5. Gallu a photensial dysgwyr

5.1. Mae gallu dysgwyr i ddilyn eu llwybr dewisedig yn cael effaith fawr ar eu dilyniant; er enghraifft, mae'r rhai sy'n cael trafferth gyda galwadau eu cwrs yn cael trafferth symud ymlaen. Fodd bynnag, nid yw gallu'n sefydlog ac mae gan golegau rôl allweddol wrth nodi ac asesu gallu, potensial ac anghenion dysgwyr, a nodi pa gymorth sydd ei angen ar ddysgwyr i symud ymlaen a gwireddu eu dyheadau. Mae data 2015 Llais y Dysgwr i Gymru'n nodi bod oddeutu 70 y cant o ddysgwyr yn fodlon ar y cymorth dysgu maent yn ei gael (LIC, 2015, t. 23).

5.2. Hefyd, disgrifiwyd bod dealltwriaeth o allu dysgwyr, eu dyheadau (canolbwyntiwyd ar hyn yn adran pedwar), a chynnig cwricwlwm y coleg (a drafodwyd yn adran tri), yn hanfodol wrth sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cofrestru ar raglenni ar lefelau priodol.

### Elfennau allweddol

5.3. Y tair elfen allweddol a nodwyd gan yr astudiaeth ynghylch gallu dysgwyr yw:

- nodi ac yna asesu cryfderau ac anghenion dysgwr;
- derbyn i'r rhaglen astudio fwyaf priodol (cyfateb dyheadau, cryfderau ac anghenion dysgwyr i lwybrau dilyniant priodol);
- llunio cynlluniau dysgu unigol (i fanteisio i'r eithaf ar gryfderau dysgwyr a mynd i'r afael â'u hanghenion fel y gallant ddilyn eu llwybr dilyniant dewisedig a newid y llwybr os yw'n briodol).

5.4. Dylai pob un o'r elfennau hyn fod yn rhan o broses barhaus, yn hytrach nag un digwyddiad.

### Dulliau ac arfer effeithiol

5.5. Mae tabl 5 yn crynhoi'r dulliau a ddefnyddir amlaf mewn colegau i nodi ac asesu gallu dysgwyr, cyfateb dysgwyr i lwybrau dilyniant priodol a llunio cynlluniau dysgu unigol. Mae hefyd yn nodi dulliau cydategol a ddefnyddir yn llai cyffredin at bob un y dylai pob coleg eu hystyried.

**Tabl 5: dulliau o nodi ac asesu cryfderau ac anghenion dysgwyr; cyfateb dysgwyr i lwybrau dilyniant priodol a chynllunio a chymorth unigol**

Elfen allweddol	Dulliau a ddefnyddir yn gyffredin	Opsionau cydategol eraill y dylai colegau eu hystyried i gryfhau gwaith i asesu a chynorthwyo dysgwyr a'u cyfateb i'r ddarpariaeth
nodi, asesu a derbyn i'r rhaglen astudio fwyaf priodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sgrinio sgiliau sylfaenol ac asesiad cychwynnol (e.e. WEST)</li> <li>• ymweliadau ysgol (yn enwedig i'r rhai 14-16 oed)</li> <li>• cyfweliadau cychwynnol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• trosglwyddo gwybodaeth am ddysgwyr o ysgolion, e.e. drwy gynlluniau unigol a chyfnewid deallusrwydd am ddysgwyr y bernir eu bod mewn perygl o ymddieithrio. Yn unol â'r FfYDI (LIC, 2013) mae lleiafrif o golegau'n gweithio gyda'r awdurdod lleol i olrhain dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae eu cynnydd yn cael ei fonitro'n agos (presenoldeb, gwaharddiadau, cyrhaeddiad) a rhoddir cefnogaeth ychwanegol iddynt cyn cyrraedd adeg hollbwysig.</li> <li>• darpariaeth AU mewn coleg AB: Canfu lleiafrif o golegau fod canran o ddysgwyr sy'n gallu astudio ar lefel AU, ond yn amharod i fynd i'r brifysgol oherwydd rhesymau fel materion teithio.</li> </ul>
cynllunio a chefnogaeth unigol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu cynlluniau dysgu unigol a'u defnyddio: defnyddir amrywiaeth o gynlluniau papur ac electronig i ddiffinio teithiau dysgwyr ac ennyn diddordeb dysgwyr a'u hysgogi (gweler e.e. Burns et al., 2013).</li> <li>• gwasanaethau cynorthwyo dysgwyr cyfannol sy'n cwmpasu sgiliau sylfaenol, anghenion cymdeithasol ac</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• pecynnau meddalwedd masnachol sy'n helpu dysgwyr i reoli eu dysgu (fel SOLA, sy'n annog sgiliau dysgu annibynnol)</li> <li>• ymyriadau mwy abl a thalentog sy'n canolbwyntio ar botensial chwaraeon neu artistig (er enghraifft, helpu'r rhai y mae ganddynt allu artistig neu chwaraeon, yn hytrach na</li> </ul>

emosiynol\* ac ymarferol\* (e.e. teithio a gofal plant)

- ymyriadau sy'n canolbwyntio ar botensial academiaidd: mae gan lawer o golegau raglenni mwy abl a thalentog ac wrth i rwydwaith SEREN<sup>23</sup> sefydlu ymhellach, mae'r rhain yn debygol o ehangu. Mae'r rhaglenni hyn yn academiaidd yn bennaf, e.e. yn helpu dysgwyr i symud ymlaen i brifysgolion Grŵp Russell.
- cynllunio a chymorth pontio (e.e. dilyniant i AU lle mae anogwyr dysgu, er enghraifft, yn helpu gyda cheisiadau UCAS neu i brentisiaethau)
- cytundebau partneriaeth rhwng AB, dysgu seiliedig ar waith a/neu AU i hwyluso trefniadau pontio

thalent academiaidd yn unig, i symud ymlaen)

- gwaith partneriaeth gydag asiantaethau eraill i ddarparu cymorth cymdeithasol, emosiynol ac ymarferol (er enghraifft, drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a grwpiau sector gwirfoddol i ateb y galw).
- strategaethau sy'n canolbwyntio ar helpu grwpiau o ddysgwyr mewn perygl (gweler astudiaeth achos Ch)
- rhagflas AU
- 'Cytundebau dilyniant'<sup>24</sup> rhwng chweched dosbarth ysgolion, colegau, dysgu seiliedig ar waith neu gyflogwyr a phrifysgolion i wella trefniadau pontio\*\*
- darparu modiwlau pontio ym maes llythrennedd neu rifedd yn ystod yr haf<sup>25\*\*</sup>.

\*Er y darperir y rhain yn gyffredinol, mae materion ynglŷn ag ateb y galw. Mae partneriaeth ag asiantaethau eraill yn un ffordd bosibl o gynyddu gallu.

\*\*Mae'r rhain yn enghreifftiau o astudiaethau eraill yn Lloegr (McKee, 2011; NFER, 2014).

<sup>23</sup> "Rhwydwaith o ganolfannau rhanbarthol yw Seren a gynlluniwyd i gynorthwyo myfyrwyr chweched dosbarth disgleiriaf Cymru i gyflawni eu potensial academiaidd a chael lle mewn prifysgolion blaenllaw" Llywodraeth Cymru

<sup>24</sup> Mae cytundeb dilyniant yn ddogfen wedi'i llofnodi rhwng sefydliad bwydo AB, coleg 6ed dosbarth, darparwr dysgu seiliedig ar waith neu gyflogwr) a sefydliad sy'n derbyn (coleg neu brifysgol yn cyflwyno rhaglenni AU). Mae'r cytundeb yn pennu fframwaith o weithgareddau cydweithredol i ddatblygu dilyniant, a'r meini prawf y mae eu hangen ar fyfyrwyr i gyflawni er mwyn symud ymlaen i addysg uwch. (McKee, 2011, t. 3).

<sup>25</sup> e.e. Datblygu modiwl pontio mathemateg i gwmpasu meysydd mathemateg penodol y mae angen dealltwriaeth hyderus ohonynt ar fyfyrwyr er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus ar lefel HNC. (NFER, 2014, t. 13).

## Trafodaeth

5.6. Er mwyn asesu anghenion dysgwyr, mae'r rhan fwyaf o golegau, i raddau amrywiol, wedi dechrau defnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST)<sup>26</sup> ar gyfer sgrinio cychwynnol a diagnosteg. Er bod lleiafrif o golegau'n canmol natur gynhwysfawr y data roedd yn ei greu (o'i gymharu â dulliau sgrinio eraill<sup>27</sup>), roedd gan lawer bryderon ynglŷn â'r amser (hyd at 90 munud) roedd yn ei gymryd i gwblhau'r prawf a lefel y cymorth a roddir i golegau sy'n defnyddio WEST. Ymhellach, bu anawsterau wrth annog rhai dysgwyr i gymryd profion diagnostig o ddifrif, a allai olygu bod canlyniadau'n anghywir. Er y gall galwadau WEST fod yn fwy na rhai dulliau sgrinio a diagnostig eraill, nid yw asesiad cychwynnol yn ofniad newydd i golegau.

5.7. Amlygodd llawer o golegau, a dysgwyr mewn oddeutu hanner y colegau, fod dysgwyr yn dod i'r coleg am fod yr agweddau galwedigaethol ac ymarferol ar ddysgu'n eu denu. Felly, gwelwyd bod mwy o bwyslais polisi ar ddysgwyr yn gwella'u sgiliau llythrennedd a rhifedd gyda chysiau'n mynd yn fwy academaidd<sup>28</sup> yn rhwystr posibl. Gwelwyd ei fod yn broblem benodol oherwydd yr adroddodd llawer o golegau fod sgiliau sylfaenol gwael<sup>29</sup> gan oddeutu hanner y dysgwyr amser llawn ac adroddodd colegau ei bod yn heriol codi eu lefelau sgiliau'n gyflym o ystyried yr amser sydd ar gael, o ran dwysedd a hyd yr ymyriad (2-3 awr yr wythnos fel awr). Yn yr un modd, mae sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael yn rhwystrau sylweddol i ddilyniant dysgwyr ac mae codi sgiliau dysgwyr yn rhan hanfodol o strategaethau coleg i wella dilyniant dysgwyr.

5.8. Adroddodd llawer o ddysgwyr y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon fod eu cyrsiau'n "gwthio" eu galluedd neu eu bod ar y lefel iawn. Fodd bynnag, roedd dysgwyr mewn lleiafrif o golegau'n teimlo nad oeddent yn cael eu herio ddigon yn academaidd.

5.9. Amlygodd oddeutu hanner y colegau y gallai ansawdd addysgu a chymorth personol amrywio'n sylweddol. Mae ansawdd addysgu a chymorth yn effeithio ar allu dysgwyr a dewisiadau dysgwyr ynglŷn â symud ymlaen ai peidio. Nododd dysgwyr diwtoriaid fel ffynhonnell gymorth allweddol, a helpodd i ddarparu cysondeb, ond roedd yn golygu bod

---

<sup>26</sup> Rhagor o fanylion ar gael:

[https://www.walesessentialskills.com/sites/default/files/WEST%20Offline%20Assessment%20Tool%20guide\\_v1.0.pdf](https://www.walesessentialskills.com/sites/default/files/WEST%20Offline%20Assessment%20Tool%20guide_v1.0.pdf)

<sup>27</sup> Rhagor o fanylion ar gael: <http://www.bksb.co.uk/products/diagnostic-assessment/>

<sup>28</sup> Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru am i Fagloriaeth Cymru gael ei mabwysiadu'n gyffredinol. I ddysgwyr sy'n gwneud cwrs Lefel 3, bydd hyn yn cynnwys bagloriaeth lefel uwch lle byddai angen gradd 'C' TGAU mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg. Yn ychwanegol, amlygodd mwyafrif y colegau fod cyrsiau'n dod yn fwy academaidd fanwl, yn enwedig ar lefel dau.

<sup>29</sup> e.e. adroddodd un coleg fod 55% o'i ddysgwyr ar lefel mynediad tri neu lai mewn rhifedd a 51% mewn llythrennedd. Roedd yr union ffigurau'n amrywio o goleg i goleg

llawer o gymorth yn dibynnu ar sgiliau a diddordeb un person (a allai fod yn absennol neu'n anodd siarad ag ef). Mae hyn yn awgrymu y dylai colegau ei gwneud yn haws i ddysgwyr newid tiwtor, gwella hyfforddiant i diwtoriaid ar gynorthwyo dysgwyr a darparu cymorth mwy amserol o ffynonellau eraill (gweler astudiaeth achos Coleg Ch).

5.10. Adroddodd oddeutu hanner y colegau gynnydd yn anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, gan gynnwys problemau iechyd meddwl (iselder a hunan-niweidio). Dywedodd colegau fod hyn wedi cynyddu'r galw, ar y cyd â thoriadau mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth, wedi cyfyngu ar allu colegau i gynorthwyo anghenion cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol. Fel y mae astudiaeth achos Coleg Ch yn ei ddangos, adroddodd lleiafrif o golegau ddatblygu ymyriadau wedi'u targedu i gynorthwyo lles cymdeithasol ac emosiynol i ddysgwyr. Mae datblygu ymyriadau i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol yn debygol o fod yn rhan bwysig o strategaethau coleg i wella dilyniant dysgwyr.

#### **Coleg Ch: strategaeth ar gyfer trechu tlodi ac anfantais**

Mae'r coleg yn ceisio gwella cyfleoedd bywyd dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais drwy:

- lunio strategaeth sy'n targedu'n benodol ddysgwyr mewn tlodi neu sydd o gefndiroedd dan anfantais eraill (e.e. fel troseddwr ifanc, plant sy'n derbyn gofal)
- cydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid (gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau cynhwysiant, cydlynwyr plant sy'n derbyn gofal, timau troseddu ieuencid a gwasanaethau cynnwys ieuencid) i rannu gwybodaeth a chymorth, sydd hefyd wedi gwella'r data i fonitro a thargedu cymorth i ddysgwyr mewn angen;
- rhoi'r sgiliau bywyd i'r dysgwyr mewn meysydd sydd wedi peri trafferth iddynt fel arfer (ac achosi pryder o ganlyniad) fel ymwybyddiaeth ariannol, bwyta'n iach a sgiliau cyflogadwyedd;
- sicrhau bod mecanweithiau cymorth (swyddogion lles myfyrwyr, tiwtoriaid, gweithwyr ieuencid) yn gallu darparu cefnogaeth lle a phan fo angen.

5.11. Canfu'r astudiaeth y gall fod tensiynau rhwng cyflwyno sy'n canolbwyntio ar wasanaethau (h.y. yr angen i gyrraedd targedau) a chyflwyno sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr (yr hyn sy'n iawn i'r dysgwr); er enghraifft, amlygodd lleiafrif o golegau y cawsant eu cymell i roi dysgwr "ffiniol" ar gwrs lefel is i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd yn cwblhau'r cwrs oherwydd bod Estyn yn eu barnu ar gyfraddau cwblhau cyrsiau.

## 6. Data dilyniant

### Cyflwyniad

6.1. Er mwyn archwilio cyfraddau dilyniant dysgwyr, canolbwyntiodd yr astudiaeth ar:

- dystiolaeth o newidiadau ym maint y gweithgarwch dysgu ar bob lefel (yn seiliedig ar ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru;
- data o golegau unigol ar ddilyniant dysgwyr.

6.2. Mae'r casgliadau y gellir dod iddynt o newidiadau ym maint y gweithgarwch dysgu'n gyfyngedig, oherwydd nad yw'n ystyried llif dysgwyr (e.e. dysgwyr sy'n gadael y coleg ar ôl cwblhau Lefel 1 a dysgwyr newydd sy'n mynd i'r coleg i ddechrau cyrsiau ar Lefel 2).

6.3. Yn ystod amserlen yr astudiaeth hon, nid oedd yn bosibl cynnal dadansoddiad systematig o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar ddilyniant dysgwyr. Mae'r casgliadau y gellir dod iddynt o ddata a ddarperir gan golegau unigol yn gyfyngedig oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y cafodd y data eu casglu a'u cyflwyno gan y pum coleg a ymatebodd i'r cais am ddata. Adroddwyd bod casglu data'n anodd oherwydd amrywiaeth o resymau gan gynnwys: gallu ac amser colegau, uno (a oedd yn aml yn ei gwneud yn anodd olrhain cynnydd dysgwyr dros amser) a dosbarthu data (e.e. ar draws adrannau neu gampysau ac yn y math o gyrsiau lefel mynediad a gofnodwyd - mewn blynyddoedd blaenorol achredwyd rhai ac nid achredwyd eraill). Mae'r data a ddarparwyd gan golegau yn ddiennw.

### Canfyddiadau

6.4. Mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar faint y gweithgarwch dysgu (a ddangosir yn nhabl 7 yn yr atodiad) dros y pum mlynedd diwethaf (2010/11 i 2014/15), yn amlygu cynnydd cyffredinol yng nghyfran y gweithgarwch dysgu ar Lefel 3 (cynnydd o saith pwynt canran)<sup>30</sup>, tra bod cyfran y gweithgarwch dysgu ar lefelau pedwar a phump wedi aros yr un peth.

6.5. Mae data o golegau unigol (y ceir crynodeb ohonynt yn nhabl 6 isod) yn dangos y bu cynnydd, dros y pum mlynedd diwethaf, yng nghyfran y dysgwyr sy'n symud ymlaen o

---

<sup>30</sup>Nid yw'r newidiadau yn y gyfran o weithgarwch dysgu ar lefel tri wedi bod yn unffurf; e.e. cafwyd cynnydd o 36% o ran gweithgarwch dysgu mewn chwaraeon, gemau a hamdden ar lefel tri a gostyngiad o 8% mewn gweithgarwch dysgu yn y dyniaethau ar lefel tri.

Lefel 1 i Lefel 2 (ac uwch) ac o Lefel 2 i Lefel 3 (ac uwch). Mae'r data hefyd yn nodi bod oddeutu 40 i 50 y cant o ddysgwyr yn symud o Lefel 1 i Lefel 2 (neu uwch) ac oddeutu 30 i 50 y cant o ddysgwyr yn symud o Lefel 2 i Lefel 3 (neu uwch), bob blwyddyn. Mae'r amrywiaeth yn y cyfraddau dilyniant yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau yng ngallu'r dysgwyr (sy'n debygol o fod y ffactor pwysicaf), dewisiadau dysgwyr a chynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm a gwahaniaethau yn y ffordd mae data'n cael ei gofnodi a'i gyflwyno.

**Tabl 6: data dilyniant (yn ddiennw) a gasglwyd o bum coleg**

<b>Casgl. Crynodeb o'r data (tueddiadau)</b>	
<b>i.</b>	Dros y pum mlynedd diwethaf (2010/11 i 2014/15) bu: <ul style="list-style-type: none"> <li>- amrywiad yng nghyfran y dysgwyr sy'n symud o Lefel 1 i 2 (neu uwch), gan arwain at gynnydd yng nghyfran y dysgwyr sy'n symud ymlaen o 38 y cant i 49 y cant dros y cyfnod (ond, o ystyried yr amrywiad o flwyddyn i flwyddyn, mae'n anodd dehongli'r hyn a fydd yn digwydd nesaf);</li> <li>- cynnydd cyson yng nghyfran y dysgwyr sy'n symud o Lefel 2 i 3 (neu uwch), o 28 y cant i 32 y cant;</li> <li>- cynnydd mawr yng nghyfran y dysgwyr sy'n symud o Lefel 3 i 4 (neu uwch), o 16 y cant i 36 y cant.</li> </ul>
<b>ii.</b>	Dros y pum mlynedd diwethaf (2010/11 i 2014/15) bu cynnydd cyson yng nghyfran y dysgwyr sy'n symud o Lefel 2 i Lefel 3: yn cynyddu o 48 y cant i 53 y cant o ddysgwyr.
<b>iii.</b>	Dros y pum mlynedd diwethaf (2010/11 i 2014/15) bu: <ul style="list-style-type: none"> <li>- cynnydd cyson yng nghyfran y dysgwyr sy'n symud o Lefel 1 i 2 (neu uwch) neu ddilyniant ar yr un lefel i gwrs gwahanol, mewn pedair o'r pum mlynedd, cyn gostyngiad yn y bumed flwyddyn, felly cynyddodd y gyfradd o 77 y cant i 78 y cant yn gyffredinol (wedi cyrraedd y brig ar 84 y cant yn 2013/14-2014/15);</li> <li>- cynnydd cyson yng nghyfran y dysgwyr sy'n symud o Lefel 2 i 3 (neu uwch) neu ddilyniant ar yr un lefel i gwrs gwahanol, o 50 y cant i 68 y cant.</li> </ul>
<b>iv.</b>	Dros y deunaw mis diwethaf (o 2014/15 i 2015/16) symudodd 50 y cant o ddysgwyr o Lefel 1 i Lefel 2, a symudodd 33 y cant o ddysgwyr o Lefel 2 i Lefel 3.
<b>v.</b>	Yn 2013/14, symudodd 50 y cant o ddysgwyr o Lefel 2 i 3.

## 7. Casgliadau

### **Pa mor dda mae colegau'n cynllunio ac yn cyflawni eu cwricwlwm i sicrhau cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr ar bob lefel?**

- 7.1. Mae dilyniant dysgwyr yn cael ei ddeall yn dda gan golegau ac mae'n dda ar y cyfan. Mae'n dibynnu ar gynllunio'r cwricwlwm, dewis a gallu'r dysgwr.
- 7.2. Ni all cynllunio dilyniant fod yn berffaith byth. Mae'n dibynnu ar wybodaeth amherffaith (e.e. ar alwadau gan ddysgwyr a'r farchnad lafur yn y dyfodol), mae'n ei gwneud yn ofynnol cydbwysu nifer o ffactorau gwahanol a gall ffactorau y tu hwnt i reolaeth coleg effeithio arno. Serch hynny, mae lle i wella sut y mae colegau'n cynllunio ac yn cyflawni eu cwricwlwm drwy ganolbwyntio ar y cwricwlwm, dewis y dysgwr a gallu'r dysgwr, ac mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar nodi enghreifftiau o sut y gellir gwneud hyn.
- 7.3. Mewn perthynas â dilyniant, mae'n debygol mai dewis y dysgwr yw'r elfen wannaf. Fel y mae Estyn yn nodi, er bod cynllunio dilyniant a chymorth i ddysgwyr yn dda ar y cyfan: “[nid] yw llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ystyried cyfleoedd cyflogaeth pan fyddant yn dewis eu cwrs coleg (Estyn, 2016, t. 91). Mae hyn yn cynrychioli methiant ar draws y system (gan gynnwys gwendidau o ran gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a ddarperir gan ysgolion a Gyrfa Cymru<sup>31</sup>). Mae hwn yn fethiant heriol i'w ddatrys, o ystyried yr amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddyheadau dysgwyr, gwybodaeth dysgwyr am sut i wireddu eu dyheadau ac, yn y pen draw, dewisiadau dysgwyr mewn perthynas â dilyniant.
- 7.4. Gall colegau wella dewisiadau'r dysgwr drwy ganolbwyntio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad, cynllunio'r cwricwlwm ac, i raddau llai, gallu'r dysgwr. Mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cyn ac yn ystod amser dysgwr yn y coleg yn hanfodol o ran sicrhau y gall dysgwyr wneud dewisiadau sy'n fwy hyddysg. Mae cynllunio'r cwricwlwm yn bwysig yma, oherwydd drwy sefydlu llwybrau dilyniant clir (er mwyn sicrhau, pa bynnag gwrs y mae dysgwr yn ei ddewis, ceir cyfres glir o lwybrau i gyflogaeth neu astudiaeth bellach), a sicrhau bod hyblygrwydd (galluogi dysgwyr i newid llwybrau), gall colegau leihau effaith dewisiadau nad ydynt yn rhai hyddysg. Mae gallu dysgwr yn bwysig

---

<sup>31</sup> Er bod gwerthusiadau o waith Gyrfa Cymru gyda phobl ifanc yn gadarnhaol, mae toriadau wedi lleihau i ba raddau y gall Gyrfa Cymru weithio gyda phobl ifanc a chyflogwyr.



oherwydd dylai sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen, nid yn unig i symud ymlaen i'r lefel nesaf, ond, os yw'n angenrheidiol, newid i lwybr newydd.

### **Pa mor fodlon yw dysgwyr ar lwybrau dilyniant a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad?**

7.5. Mae data Llais y Dysgwr i Gymru yn nodi bod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn fodlon ar y coleg, gydag 80 y cant o ddysgwyr yn nodi bod eu profiad cyffredinol yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Mae boddhad o ran gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth, yn is na hyn, ond mae dal yn gymharol uchel, gyda thua 75% o ddysgwyr yn nodi ei fod yn 'dda iawn' neu'n dda' (LIC, 2015, t.20).

7.6. Mae'r data ansoddol a gasglwyd gan yr adolygiad hwn yn nodi bod gan ddysgwyr ddyheadau uchel a'u bod yn awyddus i symud ymlaen, ond bod eu dealltwriaeth o lwybrau dilyniant yn aml yn amrywiol. Roedd eu dealltwriaeth (yn ôl y disgwyl) yn uwch ar y cyfan mewn pynciau mwy galwedigaethol gyda llai o lwybrau dilyniant a llwybrau dilyniant cliriach (fel y diwydiant adeiladu) ac mae'n debygol o fod wedi gwneud gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn haws i'w darparu i'r dysgwyr hyn.

### **A yw dysgwyr yn symud ymlaen i Lefel 3 ac uwch?**

7.7. Mae cyfyngiadau'r data'n golygu nad yw'n bosibl dod i gasgliadau pendant. Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod cyfrannau cynyddol o ddysgwyr yn symud ymlaen i lefelau uwch. Mae'n debygol bod rhai grwpiau o ddysgwyr yn fwy tebygol o symud ymlaen nag eraill; er enghraifft, mae cyfraddau dilyniant ymhlith dysgwyr o gefndir mwy difreintiedig economaidd-gymdeithasol yn is ar y cyfan (Smith et al, 2015). Mae'n bwysig gwella data ar ddilyniant dysgwyr (gan gynnwys cyrchfannau ar ôl y coleg).

7.8. Nododd y colegau anghenion cymdeithasol ac emosiynol heb eu diwallu, y bylchau rhwng Lefel 1 a 2 a rhwng Lefel 2 a 3, a chynnwys academaidd cynyddol rhai cyrsiau, fel rhwystrau allweddol i ddilyniant. Mae lefel a galwadau academaidd cyrsiau y tu hwnt i reolaeth colegau ac mae angen i golegau fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn drwy weithredu sy'n canolbwyntio ar allu'r dysgwr (e.e. ymyriadau sgiliau sylfaenol a datblygu eu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl eu hunain). Gall gwella gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau arbenigol eraill fod yn bwysig yma hefyd.

## Argymhellion

7.9. Cafodd Estyn fod cynllunio ar gyfer dilyniant yn dda ar y cyfan heb wendidau systemig (Estyn, 2014b; 2015; 2016) ac mae gwahaniaethau o ran arfer mewn colegau'n ymwneud â gweithgarwch ychwanegol neu estynedig yn bennaf. Nid yw gweithgarwch lleiafrif o'r colegau i wella cynllunio'r cwricwlwm, dewis a gallu'r dysgwr yn sylfaenol wahanol i'r hyn y mae'r rhan fwyaf o golegau yn ei wneud, ond mae rhai colegau'n gwneud mwy o'r gweithgarwch hwn, ac ar yr wyneb, mae rhai'n ei wneud yn well (fodd bynnag, roedd gwerthuso effeithiolrwydd gwahanol weithgarwch yn drylwyr ac yn annibynnol y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth). O ganlyniad, mae'n debygol y bydd pob argymhelliad yn fwy perthnasol i rai colegau nag eraill.

### Cryfhau cynllunio'r cwricwlwm

Argymhelliad 1: Colegau i wella'r defnydd o wybodaeth am y farchnad lafur wrth gynllunio'r cwricwlwm drwy ddefnyddio amrywiaeth ehangach o ffynonellau (Gweler Tabl 1 am fanylion).

Argymhelliad 2: Llywodraeth Cymru i wella data ar gyrchfannau dysgwyr yn 18 oed, gan (fel y mae Estyn yn ei argymhell) weithio gydag ysgolion, colegau, Gyrfa Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu system genedlaethol ar gyfer casglu data ar gyrchfannau pobl ifanc 18 oed.

Argymhelliad 3: Colegau i wella data ar gyrchfannau yn 18 oed a hŷn, drwy gysylltu â dysgwyr y gorffennol chwe mis ar ôl iddynt gwblhau eu cwrs (yn hytrach, er enghraifft, na dibynnu ar ddata ynghylch bwriadau a nodwyd gan ddysgwyr).

Argymhelliad 4: Colegau i ganolbwyntio casglu data ar ddilyniant ar draws colegau/adrannau, gan fonitro a gwerthuso cyfraddau dilyniant yn systematig (e.e. i nodi gwendid systematig o ran cynllunio neu ddarparu'r cwricwlwm ac archwilio gwahaniaethau ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr, fel y rhai ag anawsterau dysgu neu anabledau neu gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig), gan bennu targedau ar gyfer gwella cyfraddau dilyniant a meincnodi cyfraddau dilyniant.

Argymhelliad 5: Colegau i wneud defnydd llawn o ddata ar gyfraddau dilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm.

Argymhelliad 6: Colegau i gynyddu hyblygrwydd drwy, er enghraifft, ddatblygu cyrsiau modiwlaid (lle y bo'n bosibl), cyrsiau interim a rhaglenni dysgu carlam.

Argymhelliad 7: Mae colegau'n sicrhau bod llwybrau dilyniant clir, felly pa bynnag raglen bydd dysgwr yn ei dewis, ceir cyfres glir o lwybrau i gyflogaeth neu astudio pellach.

Argymhelliad 8: Llywodraeth Cymru i weithio gyda cholegau a chyflogwyr i archwilio cyfleoedd i fuddsoddi ar y cyd â chyflogwyr.<sup>32</sup>

### **Sicrhau bod dysgwyr yn gwneud dewisiadau mwy hyddysg**

Argymhelliad 9: Colegau i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn integreiddio herio a chynllunio (gweler Tabl 3 am fanylion), a'i fod yn cael ei lywio gan ddyheadau dysgwyr, gwybodaeth am y farchnad lafur, cynnig cwricwlwm y coleg ac asesiad o allu neu botensial dysgwr.

Argymhelliad 10: Colegau i ganolbwyntio gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar adegau hollbwysig mewn taith dysgwr (e.e. wrth ddewis cyrsiau, pan allant newid cyrsiau yn hawdd o hyd neu pan maent yn "simsanu").

Argymhelliad 11: Colegau i ddefnyddio gweithgarwch ymgysylltu â cholegau (e.e. diwrnodau agored ac allfeydd cyfryngau) i sicrhau proses well o hysbysu rhieni am y dewisiadau pwnc a llwybrau dilyniant dilynol sydd ar gael i'w plentyn neu eu plant.

### **Gwella gallu a photensial dysgwyr**

Argymhelliad 12: Colegau i gryfhau asesiadau o anghenion dysgwyr (gweler tabl 5 am ragor o fanylion).

Argymhelliad 13: Colegau i gryfhau cynllunio a chymorth unigol (gweler tabl 5 am fanylion).

Argymhelliad 14: Colegau i gryfhau cymorth i anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, gan gynnwys gwella gwaith mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol.

Argymhelliad 15: Llywodraeth Cymru i wella ansawdd ac argaeledd y cymorth sydd ar gael i golegau drwy ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST).

---

<sup>32</sup> Fel sy'n cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru (2008).

## Llyfryddiaeth

Burns et al., (2013). *Individual Learning Plan Draft Report*.

[https://moodle.colegaucymru.ac.uk/pluginfile.php/7042/mod\\_resource/content/0/2013-14/Mtg\\_1 - 21 November 2013/ILP\\_report\\_KB\\_FH\\_August\\_13\\_Final\\_Draft\\_V9\\_2\\_.pdf](https://moodle.colegaucymru.ac.uk/pluginfile.php/7042/mod_resource/content/0/2013-14/Mtg_1_-_21_November_2013/ILP_report_KB_FH_August_13_Final_Draft_V9_2_.pdf)

Cunningham, B. a Kempling, J., (2010) . Implementing Change in Public Sector Organizations [Ar-lein]. Ar gael ar-lein yn:

<http://www.nhsemployers.org/~media/Employers/Documents/Campaigns/Do%20OD/Implementing%20change%20in%20public%20sector%20organisations.pdf>

Dolton, P., Makepeace, G., Sutton, S. ac Audas, R. (1999) *Making the Grade: Education, the Labour Market and Young People*. Work and Opportunity Series No. 15. Caerfrog: York Publishing Services Ltd.

Estyn, (2014a). *Estyn Writing Guide* [Ar-lein]. Ar gael yn:

[http://www.estyn.llyw.cymru/homepage?\\_ga=1.137382264.970409200.1446240802](http://www.estyn.llyw.cymru/homepage?_ga=1.137382264.970409200.1446240802)

Estyn (2014) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru:2013-2014*. Ar gael ar-lein yn:

[http://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Adroddiad\\_Blynyddol\\_Prif\\_Arolygydd\\_Ei\\_Mawrhydi\\_dros\\_Addysg\\_a\\_Hyfforddiant\\_yng\\_Nghymru\\_2013-2014.pdf](http://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Adroddiad_Blynyddol_Prif_Arolygydd_Ei_Mawrhydi_dros_Addysg_a_Hyfforddiant_yng_Nghymru_2013-2014.pdf)

Estyn, (2015). *Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr mewn colegau addysg bellach i ddysgwyr 16-19 oed*. Ar gael ar-lein yn:

<http://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Learner%20support%20services%20in%20further%20education%20colleges%20for%20learners%20aged%2016-19%20-%20CY.pdf>

Estyn, (2016). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*. Ar gael ar-lein yn:

<http://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/adroddiad-blynyddol-2014-2015>

Evans, K. a Furlong, A. (1997) 'Metaphors of youth transitions: niches, pathways, trajectories or navigations'. Yn Bynner, J., Chisholm, L. a Furlong, A. (golygyddion) *Youth, Citizenship and Social Change in a European Context*. Aldershot: Ashgate Publishing Ltd.

Felstead, A., (2002). '*Putting skills in their place: the regional pattern of work skills in late twentieth century Britain*'; in Evans, K., Hodkinson, P. ac Unwin, L. (gol.). *Working to Learn: Transforming Learning and the Workplace*, London: Kogan Page.

McKee B. (2013) *In Practice: Developing Progression Agreements*. Skills for Sustainable Communities Lifelong Learning Network (SSCLLN)

Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) (2014) *Careers engagement: a good practice brief for leaders of schools and colleges*. Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg.

Owen , D., Gambin, L., Green, A. a Yuxin, L. (2015). *Projecting employment by ethnic group to 2022: Sefydliad Joseph Rowntree* Ar gael ar-lein yn:

<https://www.jrf.org.uk/file/46604/download?token=sf3l2v6R>

Public Sector People Managers' Association (PPMA) (2010). *Building productive public sector workplaces* [Ar-lein]. Ar gael ar-lein yn:

[http://www.cipd.co.uk/binaries/boosting-hr-performance-in-the-public-sector\\_2010.pdf](http://www.cipd.co.uk/binaries/boosting-hr-performance-in-the-public-sector_2010.pdf)

Roberts, K. (1995) .*Youth & Employment in Modern Britain*. Oxford: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Simm et al., (2007). *Reasons for early leaving from FE and Worked-Based Learning Courses*. Ar gael ar-lein ar:

<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130401151715/http://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/RR849.pdf>

Smith, S., Joslin, H. a Jameson J. (2015) *Progression of College students in England to Higher Education*. Department for Business Innovation and Skills. Ar gael ar-lein yn: [60394/BIS-15-531-progression-of-college-students-in-england-to-higher-education.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/46394/BIS-15-531-progression-of-college-students-in-england-to-higher-education.pdf)

Starling, G. (2010). *Managing the Public Sector*. Boston: Wadsworth.

Llywodraeth Cymru (2008) *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*. Ar gael ar-lein yn:

<http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/081217stfwstrategyandactioncy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2013). *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid - Cynllun gweithredu*  
Ar gael ar-lein yn:

<http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru, (2014). *Datganiad polisi ar sgiliau*. Ar gael ar-lein yn:

<http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/140129-policy-statement-on-skills-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru, (2015). *Canlyniadau Arolwg Llais y Dysgwr i Gymru 2015*. Ar gael ar-lein yn:

<http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151230-learner-voice-wales-survey-2015-en.pdf>

## Atodiad

**Tabl 7: dangos y newid canrannol o ran gweithgarwch dysgu a gredydwyd ar Lefel Mynediad, Lefel 1, 2, 3, 4 a 5 mewn SAB rhwng 2010/11 a 2014/15 (data dros dro).**

Pynciau	Myne diad	L1	L2	L3	L4/5
<b>Pob pwnc</b>	<b>0.7</b>	<b>-7.4</b>	<b>-5.1</b>	<b>7.1</b>	<b>0.0</b>
Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	-8.3	4.9	-1.7	9.9	
Celf a Chrefft	1.2	-14.5	-9.6	5.8	
Amgylchedd Adeiledig	-2.1	-6.7	-3.6	8.6	-0.1
Busnes/Rheoli/Astudiaethau Swyddfa	-4.4	4.0	-8.7	1.7	-1.8
Gofal/Datblygiad Personol	-0.1	-6.9	-12.0	11.8	
Astudiaethau Diwylliannol/Ieithoedd/Llenyddiaeth	7.1	-2.3	-8.2	-1.6	
Addysg/Hyfforddiant/Addysgu	-1.1	-19.1	-9.8	25.7	1.3
Peirianeg	-1.3	-0.1	-0.5	0.4	0.0
Amgylchedd	4.9	-12.9	13.7	-9.8	
Gofal Iechyd/Meddygaeth/Iechyd a Diogelwch	-0.2	-3.9	-7.8	6.6	-0.2
Gwestai ac Arlwyo	-1.0	-4.0	0.7	1.4	-0.1
Dyniaethau	1.7	-9.8	-6.5	-7.8	
Technoleg Gwybodaeth a Gwybodaeth	4.1	-13.8	3.3	8.7	
Gweithgynhyrchu		-6.6	13.8	4.4	
Cyfryngau/Cysylltiadau/Cyhoeddi	0.5	-5.6	-3.4	7.3	-0.1
Celfyddydau Perfformio	4.1	-7.4	-12.1	10.3	
Gwerthu, Marchnata a Manwerthu	-4.7	-1.3	1.3	-0.2	-0.1
Gwyddorau a Mathemateg	0.1	-3.9	0.8	2.8	
Gwasanaethau i Ddiwydiant/Masnach		1.0	-6.3	1.1	
Gwyddorau Cymdeithasol	0.4	-0.5	-5.7	10.2	
Chwaraeon, Gemau a Hamdden	-5.1	-20.2	-11.7	36.1	0.7
Trafnidiaeth		-1.4	-1.9	1.6	
<i>Heb eu nodi</i>	-44.7	3.1	10.0	3.8	3.8
<i>Ddim yn Hysbys</i>	14.1	-26.1	-2.1	3.8	

*Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru<sup>33</sup>*

<sup>33</sup>Yn seiliedig ar ddata a gweithgarwch dysgu mewn sefydliadau AB yn ôl pwnc a lefel credyd:  
<https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Lifelong-Learning-Wales-Record/learningactivities-by-subject-creditlevel>